**LC401**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Addysg (Cymru) 2002**

Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod addysg lleol baratoi cynllun datblygu addysg. Mae'r rheoliadau hyn yn cynnwys gofynion manwl ynglŷn â pharatoi cynllun datblygu addysg.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gan eu bod wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o'r Rheoliadau hyn, mae cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wedi llwyddo i nodi nifer o bwyntiau drafftio sydd bellach wedi'u cymryd i ystyriaeth. O ganlyniad, nid oes dim pwyntiau yn cael eu nodi bellach fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw arbennig iddynt.

Fodd bynnag, mae yna ambell wall teipograffyddol y bydd angen eu cywiro cyn y gwneir y rheoliadau hyn.

**Y testun Cymraeg - rhifo'r paragraffau**

Mae angen adolygu'r rhifo trwyddi draw yn y rheoliadau.

**Rheoliad 3(1) – y Diffiniad o "interim year"**

Yn unol â'r hyn sy'n arferol, dylid cynnwys yn y testun Saesneg gyfeiriad rhwng cromfachau ar ôl "first interim year" a "second interim year" at y term sy'n cyfateb yn y Gymraeg.

**Rheoliad 15 – y testun Cymraeg**

Mae’r gair “grŵp” wedi ei gam-argraffu.

**Rheoliad 22(1)(c) – y testun Cymraeg**

Dylid mewnosod yr arddodiad “gan” cyn y fannod “yr”.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

22 Ionawr 2002